# Crynodeb o Gofnodion y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth (AAP) Cyfarfod 18 – 24 Mehefin 2019

Pafiliwn Llywodraeth Cymru, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt

**Yn bresennol**
Lionel Walford – Cadeirydd
Steve Hughson – Annibynnol
Ivan Monckton – Unite
Dylan Morgan – NFU Cymru
Peter Rees – Aelod Annibynnol
Darren Williams - FUW
Daryl Williams – Unite
Helen Snow – Geldards

Llywodraeth Cymru:
Ryan Davies – Rheolwr y Panel
Spencer Conlon - Arweinydd Prosiect Fframwaith Strategol Amaethyddol
Dan Ricketts – Ysgrifenyddiaeth

**Ymddiheuriadau**
Will Prichard – NFU Cymru

## Eitem 1 - Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan gynnwys Dylan Morgan o NFU Cymru gan bod Will Prichard wedi anfon ymddiheuriadau.

## Eitem 2 - Newyddion diweddaraf y Cadeirydd

Mae Llywodraeth Cymru yn noddi trafodaeth o adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg ar 12 Tachwedd 2019 ble y bydd y Cadeirydd yn bresennol. Caiff y manylion eu trafod yn y cyfarfod cychwynnol.

## Eitem 3 - Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a Chamau Gweithredu

Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau i'r cofnod a chafodd y cofnodion eu cymeradwyo. Roedd nifer o Bwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ar agenda y cyfarfod hwn.

## Eitem 4 - Data Gwybodaeth am y Farchnad Lafur

Eglurwyd nad oedd Llywodraeth Cymru yn cadw data ynghylch y Farchnad Lafur yn y sector amaethyddol. Nid oes modd newid yr Arolwg o Fusnesau Ffermio i gasglu data i gefnogi gwaith y grŵp am amrywiol resymau. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith y Panel yn llawn a byddant yn parhau i wneud hynny. Cytunwyd y byddai Tîm Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru yn edrych ar hyfywedd defnyddio Arolwg Amaethyddol a Garddwriaethol Mehefin fel dull o gasglu data Gwybodaeth am y Farchnad Lafur a cytunodd i wneud hynny.

## Eitem 5 – Ymatebion i'r Ymgynghoriad am y Gorchymyn Cyflogau

Roedd pedwar ymateb i'r ddogfen ymgynghori. Roedd un ymateb o blaid y newidiadau, un yn ymwrthod a dau yn codi pryderon yngylch y Gorchymyn Cyflogau.

Nid yw yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol 2020/21 wedi eu cyhoeddi gan Lywodraeth y DU a chytunwyd na fyddai modd cadarnhau y cyfraddau cyflog arfaethedig a drafodwyd yng Nghyfarfod 17 tan gwybod y ffigwr cenedlaethol.

## Eitem 6 – Moderneiddio'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol

Gan mai ychydig o newidiadau sydd i Orchymyn 2020 mae hwn yn parhau i fod ar y trywydd iawn i ddod i rym ar 1 Ebrill 2020.

Yn ddelfrydol mae angen cytuno ar strwythur Gorchymyn 2021 erbyn Chwefror 2020. Fodd bynnag gan bod hwn yn fater mor bwysig, os y bydd yn rhaid oedi am ychydig wythnosau gyda'r Asesiad ar Effaith, yna dyna fydd yn rhaid ei wneud.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch ail-fandio y Graddau ar gyfer Cyflogau Amaethyddol a chafodd drafft newydd o'r ddogfen ei pharatoi. Gofynnwyd i bob parti edrych ar y ddogfen newydd am benderfyniad terfynol yn y cyfarfod nesaf.

Cafodd ffermwyr Trawsffiniol eu trafod a chytunwyd bod angen i'r canllawiau sy'n cael eu cyhoeddi ar y wefan ac sydd ar gael i gyflogwyr a gweithwyr gynnwys adran ar gyflogau ar ffermydd trawsffiniol i gyfateb â chanllawiau eraill (megis Cynllun y Taliad Sylfaenol). Mae angen edrych arno hefyd ar gyfer y moderneiddio yn 2021.

## Eitem 7 - Ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir

Cyfarfu yr is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant ar 2 Hydref i drafod ymateb i'r ymgynghoriad. Cafodd y pwyntiau a godwyd gan yr is-bwyllgor eu trafod gan y Panel. Cytunodd pawb y gellid cyflwyno'r ymateb cyn belled ag y bo'n glir nad oedd sylwadau'n cael eu cysylltu ag unigolion neu sefydliadau.

## Eitem 8 - UFA

Mae gwaith y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth ar ddatblygu sgiliau amaethyddol, fframweithiau prentisiaeth ac ati yn datblygu'n gyflym.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol a chaewyd y cyfarfod